Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Dilynol o Gefnogi Cydnerthedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1961A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. This document is also available in Welsh.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau ein hadroddiad: mae'n gwneud cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella ac mae ganddo waith yn yr arfaeth i fynd i'r afael â hwy'n llawn 6

Mae'r Cyngor yn cymryd camau i ddeall a mynd i'r afael â'r rhesymau dros gyfraddau casglu'r dreth gyngor sy'n is na'r cyfartaledd a'i gostau staff uchel 6

Mae'r Cyngor wedi datblygu cofrestr grantiau ganolog ac mae'n dechrau rheoli grantiau'n fwy strategol 9

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da gyda'i adolygiad strategol o ffioedd a thaliadau 10

Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau cynllunio a rheoli ariannol 11

Er bod lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n dal i fod yn isel, mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhagweithiol i wella'i sefyllfa ac mae'r SATC yn dangos ymrwymiad parhaus i gryfhau'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol 13

Mae'r rhaglen Pontio'r Bwlch yn gwneud defnydd effeithiol o ddata ac mae gwaith pellach ar y gweill i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio data 14

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynigion: Adolygiad o Gefnogi Cydnerthedd Ariannol, 2018 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Yn 2018, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o Gefnogi Cydnerthedd Ariannol a oedd yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol yr oedd y Cyngor yn cynyddu ei gyfleoedd ariannu i'r eithaf ac yn cyfyngu ar y galwadau o ran gwariant. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chronfeydd wrth gefn o 5% ond y byddai angen iddo ddatblygu diwylliant ariannol cryfach er mwyn parhau i fod yn gydnerth o safbwynt ariannol. Yn arbennig, daeth yr adolygiad i'r casgliadau canlynol:

- gan y Cyngor yr oedd y costau staff treth gyngor uchaf o blith holl gynghorau Cymru, ac roedd ei gyfradd casglu'r dreth gyngor yn ystod y flwyddyn ymysg yr isaf yng Nghymru, ac felly hefyd ei ddefnydd o ddebydau uniongyrchol i gasglu'r dreth gyngor;
- nid oedd trefn gorfforaethol i gydgysylltu ceisiadau am grantiau ac nid oedd cofnod canolog o grantiau a hawliwyd;
- roedd diffyg cyfeiriad strategol clir, perchnogaeth gan wasanaethau a chymhwyso cyson o ran dull y Cyngor o bennu ffioedd a thaliadau;
- roedd y Cyngor wedi nodi cynllun ariannol eglur ar gyfer 2018-19 ond roedd yn wynebu heriau arwyddocaol i'w gyflawni a rhaid iddo wella'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol;
- roedd gan y Cyngor Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol o 5% a oedd uwchlaw ei lefel darged isaf o 4% ac roedd y Cyngor yn cydnabod y gallai pwysau nas rhagwelwyd ar y gyllideb fygwth y sefyllfa hon yn y dyfodol; ac
- roedd gan y Cyngor lawer o ddata ar gael iddo ond roedd heb ddiwylliant a oedd yn gyson yn defnyddio data mewn modd adeiladol i fynd ati'n rhagweithiol i herio, dysgu a sbarduno gwelliant.

2 Roedd yr adolygiad yn cynnig gwelliannau ym mhob un or meysydd hyn, fel a nodir yn **Atodiad 1**, ac fe ymatebodd y Cyngor i bob un ohonynt, gan ddangos y cam gweithredu yr oedd yn bwriadu ei gymryd.

3 Ar ôl yr adroddiad hwn, yn ei lythyr dyddiedig 18 Ionawr 2019, daeth yr Archwilydd Penodedig tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r casgliadau canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio eto â'i holl gyfrifoldebau statudol mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau;
- er bod gan y Cyngor drefniadau i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau, mae cyfle i wneud gwelliannau pellach; ac
- mae'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru'n wynebu heriau ariannol; fodd bynnag, mae'r her ym Mlaenau Gwent yn sylweddol. O ystyried lefelau ei gronfeydd wrth gefn a'r pwysau ar ei gyllideb, bydd angen i'r Cyngor ddatblygu diwylliant ariannol cryfach er mwyn parhau i fod yn gydnerth o safbwynt ariannol.

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd effeithiol o ran mynd i'r afael â'n hadolygiad o Gefnogi Cydnerthedd Ariannol yn 2018 i gryfhau ei gydnerthedd ariannol.

5 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020 Darparodd y Cyngor ddogfennau i ddangos y cynnydd yr oedd wedi'i wneud. Wedyn fe gyfwelom ni â swyddogion allweddol ac Arweinydd y Cyngor.

## Yr hyn a ganfuom

6 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A all y Cyngor ddarparu sicrwydd ei fod wedi mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn allbwn yr adolygiad o Gefnogi Cydnerthedd Ariannol yn 2018?**

7 Ar y cyfan canfuom fel a ganlyn: **mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau ein hadroddiad: mae'n gwneud cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella ac mae ganddo waith yn yr arfaeth i fynd i'r afael â hwy'n llawn.**

8 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn cymryd camau i ddeall a mynd i'r afael â'r rhesymau dros gyfraddau casglu'r dreth gyngor sy'n is na'r cyfartaledd a'i gostau staff uchel;
- mae'r Cyngor wedi datblygu cofrestr grantiau ganolog ac mae'n dechrau rheoli grantiau'n fwy strategol;
- mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da gyda'i adolygiad strategol o ffioedd a thaliadau;
- mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau cynllunio a rheoli ariannol;
- er bod lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n dal i fod yn isel, mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhagweithiol i wella'i sefyllfa ac mae'r SATC yn dangos ymrwymiad parhaus i gryfhau'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol
- mae'r rhaglen Pontio'r Bwlch yn gwneud defnydd effeithiol o ddata ac mae gwaith pellach ar y gweill i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio data.

# Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau ein hadroddiad: mae'n gwneud cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella ac mae ganddo waith yn yr arfaeth i fynd i'r afael â hwy'n llawn

## Mae'r Cyngor yn cymryd camau i ddeall a mynd i'r afael â'r rhesymau dros gyfraddau casglu'r dreth gyngor sy'n is na'r cyfartaledd a'i gostau staff uchel

### Canfyddiadau a chynnig ar gyfer gwella yn 2018

9 Canfu ein hadolygiad yn 2018 mai gan y Cyngor yr oedd y costau staff treth gyngor uchaf o blith holl gynghorau Cymru, a bod ei gyfradd casglu'r dreth gyngor yn ystod y flwyddyn ymysg yr isaf yng Nghymru, ac felly hefyd ei ddefnydd o ddebydau uniongyrchol i gasglu'r dreth gyngor.

10 O ganlyniad fe wnaethom gynnig ar gyfer gwella y dylai'r Cyngor adolygu'r modd yr oedd yn gweinyddu'r dreth gyngor i sicrhau ei bod yn cael ei chasglu'n brydlon ac yn effeithlon. Yn arbennig dylai:


- adolygu ei drefniadau ar gyfer casglu'r dreth gyngor gyda'r nod o gynyddu cyfraddau casglu yn ystod y flwyddyn; a
- chymharu ei gostau staffio ar gyfer y dreth gyngor â chynghorau eraill yng Nghymru i ddeall yr amrywiadau o ran costau a oedd yn bodoli yn ôl pob golwg a chanfod cyfleoedd posibl i arbed costau.

### Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom, yn 2018-19, fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn ystod y flwyddyn wedi aros yn gyson â blynyddoedd blaenorol ar 93.7%, fel a nodir yn **Arddangosyn** 1.

**Arddangosyn 1: cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn ystod y flwyddyn**

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfraddau'r Cyngor o ran casglu'r dreth gyngor yn ystod y flwyddyn a sut y mae'r rhain yn cymharu â chyfartaledd Cymru




12 Mae'r gyfradd is na'r cyfartaledd ar gyfer casglu yn ystod y flwyddyn i'w phriodoli'n rhannol i lefelau amddifadedd yn y sir a pholisi'r Cyngor i ganiatáu i drigolion sy'n cael anawsterau gyda thaliadau'r dreth gyngor wasgaru eu taliadau dros gyfnod hwy. Mae'r Cyngor yn cydnabod, er bod hyn yn cynorthwyo trigolion sy'n profi anhawster ariannol ac yn gwella cyfraddau casglu dros y tymor hwy trwy atal ôl-ddyledion ac achosion posibl o ddileu dyledion, ei fod yn cael effaith negyddol ar gyfraddau casglu yn ystod y flwyddyn.

13 Dengys Arddangosyn 2 fod y Cyngor yn mynd ymlaen i gasglu'r mwyafrif o daliadau'r dreth gyngor sy'n dal heb eu gwneud dros y blynyddoedd dilynol, gyda thua 99% yn cael eu casglu ar ôl pedair i bum mlynedd. Mae'r Cyngor yn ystyried y cyfraddau casglu arafach fel rhan o'i broses o bennu'r gyllideb i reoli'r goblygiadau o ran llif arian.

**Arddangosyn 2: y ganran o'r dreth gyngor a gasglwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn ôl y sefyllfa ar ddiwedd 2018-19**

Mae'r tabl canlynol yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a gasglwyd yn ystod y flwyddyn a thros y blynyddoedd dilynol

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % a gasglwyd erbyn diwedd y flwyddyn | 95.7 | 95 | 93.5 | 93.8 | 93.8 | 93.7 |
| % a gasglwyd erbyn 31 Mawrth 2019 | 99 | 98.9 | 98.6 | 98 | 96.8 | |

14 Ers ein hadolygiad cychwynnol, mae'r Cyngor wedi adolygu ei drefniadau a chostau casglu'r dreth gyngor trwy:

- fapio ei brosesau adennill a gorfodi; ac
- ymweld â nifer o gynghorau â chyfraddau uwch ar gyfer casglu yn ystod y flwyddyn i adnabod arferion da y gellid eu hailadrodd ym Mlaenau Gwent.

15 Er bod y Cyngor yn dweud nad oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ôl pob golwg o ran y dull ar y cyfan, fe wnaeth yr ymweliadau adnabod rhai prosesau a oedd â'r potensial i wella effeithlonrwydd a chost casglu. Lle y bo'n briodol, mae'r Cyngor yn cyflwyno'r rhain. Er enghraifft:

- mwy o ddefnydd o gyfathrebu digidol;
- modiwl hunan-wasanaeth ar-lein i drigolion;
- mynd ati'n fwy i hyrwyddo dulliau talu electronig, e.e. debyd uniongyrchol, archebion sefydlog a didynnu trwy'r gyflogres; a
- dyrannu taliadau'r dreth gyngor i ddyled gyfredol yn hytrach na hen ddyled.

16 Fe wnaeth adolygiad y Cyngor ystyried amrywiadau rhwng costau staff y dreth gyngor hefyd ond cafodd ei bod yn anodd dwyn cymhariaeth uniongyrchol oherwydd strwythurau gwahanol ar draws cynghorau. Er enghraifft, dywedodd y Cyngor wrthym, ym Mlaenau Gwent fod staff treth gyngor pwrpasol yn ymdrin ag ymholiadau ynghylch y dreth gyngor, tra bo rhai cynghorau'n defnyddio staff canolfan alw ganolog nad yw eu hamser yn cael ei briodoli fel cost gweinyddu'r dreth gyngor. Mae amrywiadau rhwng costau staff yn dal i gael eu hadolygu ac mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd rhai o'r camau gweithredu a restrir ym mharagraff 15 yn arwain at arbedion o ran costau.

17 Yn 2019, rhoddodd y Cyngor gomisiwn i'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i gynnal adolygiad annibynnol o'i drefniadau ar gyfer y dreth gyngor a chynghori ynghylch cyfleoedd posibl ar gyfer gwelliannau. Canfu'r adroddiad dilynol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, fod 'yr arferion casglu ym Mlaenau Gwent yn debyg i awdurdodau lleol eraill gyda'r holl ddulliau adennill sydd ar gael yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol'. Fe wnaeth CIPFA ganmol gwaith y Cyngor i gynyddu i'r eithaf yr ôl-ddyledion a gesglir hefyd a'r lefelau isel o ddyled y mae angen ei dileu o ganlyniad. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o gynigion mewn perthynas â gweinyddu'r dreth gyngor ac mae'r Cyngor yn datblygu cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion hyn.

18 Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo a hwyluso dulliau electronig o dalu'r dreth gyngor. Er enghraifft, mae'r holl ohebiaeth a anfonir gan y gwasanaeth Refeniwiau a Budd-daliadau yn cynnwys nodyn sydd wedi'i argraffu ar flaen yr amlen i atgoffa bod modd talu trwy ddebyd uniongyrchol. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno opsiynau debyd uniongyrchol mwy hyblyg hefyd, megis taliadau wythnosol a dyddiadau talu sydd wedi'u cysylltu â dyddiadau talu cyflogwyr pwysig, e.e. y GIG. Hefyd, mae cynllun i ddidynnu drwy'r gyflogres ar gael i staff y Cyngor. Mae adroddiad CIPFA yn nodi, ar ddiwedd mis Medi 2019, bod 62.8% o gyfrifon y Dreth Gyngor oedd â thaliad i'w wneud[1] yn talu trwy ddebyd uniongyrchol. Roedd 1.3% pellach o'r cyfrifon yn talu ar ffurf didyniad trwy'r gyflogres.

[1] Nid oes gan bron i chwarter yr holl gyfrifon Treth Gyngor ym Mlaenau Gwent unrhyw beth i'w dalu, er enghraifft am eu bod yn cael gostyngiad llawn yn y dreth gyngor. Felly

19 Mae gwaith i ymateb i'n cynnig ar gyfer gwella hefyd yn rhan o'r maes Cynyddu Incwm yn rhaglen Pontio'r Bwlch gan y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer ymyrryd yn gynnar ac atal i gefnogi'r nifer cynyddol o deuluoedd sy'n profi anawsterau ariannol. Mae'r Cyngor yn disgwyl i hyn gael effaith gadarnhaol ar gyfraddau casglu'r dreth gyngor trwy helpu i gynyddu incwm aelwyd trigolion i'r eithaf.

20 Er enghraifft, mae staff Refeniwiau a Budd-daliadau'n treialu prosiect gyda chydweithwyr Dechrau'n Deg i ymgysylltu â thrigolion ar adeg gynharach. Bydd hyn o gymorth i ganfod a yw pobl sy'n profi anawsterau ariannol yn hawlio'r budd-daliadau a'r cynlluniau cymorth sydd ar gael iddynt, megis cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor wedi adnabod y meysydd yr oedd yn bwriadu eu targedu ac roedd yn bwriadu ymweld â hybiau Dechrau'n Deg yn gynnar yn 2020. Er y gallai'r gwaith hwn wella cyfraddau casglu, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai hefyd arwain at bwysau o ran y cyllid o ganlyniad i gynnydd yn y nifer sy'n defnyddio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu cofrestr grantiau ganolog ac mae'n dechrau rheoli grantiau'n fwy strategol

### Canfyddiadau a chynnig ar gyfer gwella yn 2018

21 Canfu ein hadolygiad yn 2018 nad oedd trefn gorfforaethol i gydgysylltu ceisiadau am grantiau ac nad oedd cofnod canolog o grantiau a hawliwyd.

22 O ganlyniad fe wnaethom gynnig ar gyfer gwella y dylai'r Cyngor reoli grantiau'n strategol ochr yn ochr â ffrydiau ariannu eraill. Yn arbennig dylai:

- integreiddio'r ceisiadau am grantiau'n well â'r broses o bennu'r gyllideb (lle y bo'n bosibl);
- cynnal cofnodion canolog o geisiadau posibl a llwyddiannus am grantiau i ategu trosolwg strategol o'r ffrwd ariannu hon; ac
- adolygu'r grantiau a roddwyd gan y Cyngor i sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian.

### Yr hyn a ganfuom

23 Canfuom fod y Cyngor bellach wedi datblygu cofrestr grantiau gorfforaethol. Mae hon yn darparu cronfa ddata ganolog o grantiau refeniw posibl a chofnodion ar gyfer rhai yr ymgeisiwyd yn llwyddiannus amdanynt. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am bob grant, gan gynnwys ei ddiben, y swm a gafwyd, nifer y swyddi y mae wedi'u hariannu a chysylltiadau â blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol a strategaethau allweddol lle y bo'n berthnasol.

24 Mae'r Cyngor yn ystyried bod y gofrestr yn fan cychwyn ar gyfer ei adolygiad o'r defnydd strategol o grantiau, sy'n rhan o raglen Pontio'r Bwlch gan y Cyngor. Mae'r adolygiad yn archwilio sut y defnyddir grantiau i gyflawni deilliannau ar gyfer

mae CIPFA wedi tynnu'r rhain allan o nifer sylfaenol y cyfrifon wrth gyfrifo'r gyfran sy'n talu trwy ddebyd uniongyrchol.

trigolion ac yn ystyried effaith tynnu'r grantiau i ffwrdd a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar gyllid craidd. Mae hefyd yn amcanu at sicrhau bod y Cyngor yn ymgeisio am y grantiau hynny sy'n cefnogi ei flaenoriaethau a dyheadau strategol.

25 Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer grantiau. Y Grŵp Comisiynu Strategol, sydd yn y broses o gael ei sefydlu dan faes arall yn Pontio'r Bwlch, fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r gofrestr grantiau a sicrhau bod y Cyngor yn cynyddu effaith cyllid grant i'r eithaf ac yn osgoi dyblygu. Yn ychwanegol at hyn bydd diweddariadau chwarterol ar yr adolygiad o ddefnyddio grantiau'n strategol fel rhan o raglen Pontio'r Bwlch yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

26 Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal dros dri cham, gyda cham un, sy'n canolbwyntio ar y Grant Plant a Chymunedau, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

27 Mae'r Cyngor wedi coladu cofrestr o grantiau a chyfraniadau y mae wedi'u rhoi i sefydliadau eraill yn 2019-20. Mae hon yn darparu gwybodaeth am werth grantiau a ddyfarnwyd, eu diben, a'r broses ymgeisio ar gyfer dyfarnu'r grantiau. Ar gyfer rhai grantiau mae asesiad gwerth am arian wedi'i gynnwys.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da gyda'i adolygiad strategol o ffioedd a thaliadau

### Canfyddiadau a chynnig ar gyfer gwella yn 2018

28 Canfu ein hadolygiad yn 2018 bod diffyg cyfeiriad strategol clir, perchnogaeth gan wasanaethau a chymhwyso cyson o ran dull y Cyngor o bennu ffioedd a thaliadau.

29 O ganlyniad fe wnaethom gynnig ar gyfer gwella y dylai'r Cyngor ddarparu her gadarn wrth bennu ffioedd a thaliadau i sicrhau eu bod o gymorth i gyflawni ei flaenoriaethau strategol. Yn arbennig:

- datblygu polisi creu incwm i roi cymorth i gyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor;
- dylai'r tîm Cyllid Canolog roi cyfarwyddiadau clir i reolwyr ynghylch codiadau mewn ffioedd a thaliadau gan ystyried dylanwadau allanol perthnasol;
- dylai gwasanaethau gydymffurfio â chyfarwyddiadau ynghylch y gyllideb mewn perthynas â chodiadau mewn ffioedd a thaliadau;
- dylai'r tîm Cyllid Canolog gynnal gwiriadau cadarn i herio a chadarnhau cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau ynghylch y gyllideb; a
- dylai incwm wedi'i gyllidebu adlewyrchu lefelau ffioedd a thaliadau y cytunwyd arnynt a lefelau gweithgarwch disgwyliedig.

### Yr hyn a ganfuom

30 Canfuom fod gan y Cyngor Bolisi Creu Incwm sy'n nodi ystyriaethau allweddol mewn perthynas â chodi tâl. Cafodd y polisi ei adolygu yn 2018 gan ymgynghorydd allanol a barnwyd ei fod yn gadarn.

31 Fel rhan o'i raglen Pontio'r Bwlch, mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad strategol o ffioedd a thaliadau. Nod yr adolygiad yw cynyddu incwm y Cyngor i'r eithaf trwy sicrhau bod ffioedd a thaliadau'n cael eu pennu'n seiliedig ar

adfer costau'n llawn lle y bo'n briodol, a bod codiadau chwyddiannol y cytunwyd arnynt yn cael eu cymhwyso iddynt.

32 I oleuo'r adolygiad, mae'r Cyngor wedi meincnodi ei gofrestr ffioedd a thaliadau yn erbyn y rhai mewn cynghorau eraill yng Nghymru sydd â lefelau amddifadedd tebyg. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu cyfrifydd adfer costau llawn y mae'n ei gymhwyso i ffioedd a thaliadau presennol ac i asesu cyfleoedd newydd ar gyfer codi tâl. Hyd yma mae'r adolygiad wedi canfod £0.2 miliwn ychwanegol o incwm ar gyfer 2020-21 a £0.1 miliwn ar gyfer blynyddoedd dilynol a chaiff hyn ei adlewyrchu yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a'i gyllideb ar gyfer 2020-21.

33 Mae Adran Gyllid y Cyngor yn gweithio gyda deiliaid cyllidebau i ail-alinio cyllidebau incwm i adlewyrchu lefelau gweithgarwch a sicrhau bod codiad chwyddiannol blynyddol yn cael ei gymhwyso. Mae'r Cyngor yn nodi bod yr holl ffioedd a thaliadau ar gyfer 2019-20 wedi cael eu hadolygu a'u bod yn gyson â'r polisi. Mae'r holl godiadau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor wedi cael eu cymhwyso hefyd.

34 Mae'r Cyngor yn tracio alldro rhagamcanol ffioedd a thaliadau yn ei adroddiadau monitro'r gyllideb refeniw chwarterol i Bwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor. Mae adroddiad Ch2 yn dangos incwm a ragwelir o £14.1 miliwn, sy'n ddiffyg o £0.66 miliwn (4.5%) o'i gymharu â'r targed

## Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau cynllunio a rheoli ariannol

### Canfyddiadau a chynnig ar gyfer gwella yn 2018

35 Canfu ein hadolygiad yn 2018 bod y Cyngor wedi nodi cynllun ariannol eglur ar gyfer 2018-19 ond ei fod yn wynebu heriau arwyddocaol i'w gyflawni a bod rhaid iddo wella'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol.

36 O ganlyniad fe wnaethom gynnig ar gyfer gwella y dylai'r Cyngor, er mwyn cyflawni cyllideb 2018-19, ymateb yn adeiladol i'r anghydbwysedd yng nghyllideb 2017-18 a allai ddigwydd eto yn 2018-19, gan ddefnyddio sgiliau'r Tîm Cyllid Canolog, y Tîm Trawsnewid Strategol a deiliaid cyllidebau. Yn arbennig dylai'r Cyngor:

- adolygu ei orwariannau a thanwariannau yng nghyllideb refeniw 2017-18 yn feirniadol a dysgu ohonynt i adnabod rhesymau dros anghydbwyseddau ar gyfer cyllidebau blynyddoedd yn y dyfodol;
- gweithredu i sicrhau nad yw gwendidau a ganfuwyd yn ailddigwydd;
- cynyddu potensial y Tîm Trawsnewid Strategol i'r eithaf;
- gwella'r modd y caiff prosiectau arbedion eu monitro a chymryd camau cywirol eglur i fynd i'r afael â thangyflawni ac ymdrin â'r achosion sylfaenol;
- adolygu anghenion sgiliau, galluoedd a datblygu deiliaid cyllidebau a darparu hyfforddiant/cymorth i'w diwallu
- sicrhau bod y Tîm Cyllid Canolog yn arwain ar ddiwylliant ariannol cadarn ac yn hwyluso'r diwylliant hwnnw drwyddi draw yn y sefydliad.

37 Fe wnaethom gynnig pellach ar gyfer gwella sef, wrth gynllunio ar gyfer cyllideb 2019-20, y dylai'r Cyngor wella atebolrwydd drwyddi draw yn y sefydliad am bennu a chyflawni cyllideb 2019-20 a chyllidebau yn y dyfodol. Yn arbennig dylai:

- adnabod anghydbwyseddau mewn cyllidebau/gwasanaethau o 2017-18 a rhagolygon yn 2018-19;
- penderfynu a yw gorwariant yn mynd i gael ei ariannu trwy gyllideb ychwanegol ynteu ei reoli tuag i lawr trwy weithredu gan reolwyr;
- penderfynu a ellir cynnal tanwariant ac ailddyrannu'r gyllideb yn unol â hynny;
- cyflwyno trefniadau cynllunio'r gweithlu i'r broses o bennu'r gyllideb;
- gwella atebolrwydd am bennu a chyflawni'r gyllideb; a
- chryfhau'r modd y rheolir cyllidebau trwy ddwyn deiliaid cyllidebau i gyfrif a chymryd camau cywirol amserol cynnar.

## Yr hyn a ganfuom

38 Canfuom fod y Cyngor wedi cryfhau ei brosesau ar gyfer cynllunio'r gyllideb. Mae pwysau parhaus a phwysau sy'n dod i'r amlwg o ran costau'n cael eu hystyried fel rhan o broses y SATC a'r broses o bennu'r gyllideb. Wedyn mae ariannu pwysau o ran costau'n cael ei gynnwys yn y gyllideb, gyda chyllidebau sylfaenol yn cael eu haddasu fel y bo angen.

39 Er enghraifft, fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2018-19 a 2019-20 fe wnaeth y Cyngor adolygu pwysau o ran costau a gorwariannau mewn blynyddoedd blaenorol i ganfod y rhai a oedd yn debygol o ailddigwydd. Wedyn fe ystyriodd a ddylid rheoli'r rhain o fewn cyllidebau presennol ynteu eu nodi fel pwysau o ran costau. O ganlyniad i'r broses hon, fe wnaeth y Cyngor gynnwys £2.4 miliwn ychwanegol yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2018-19 ac £1.4 miliwn ar gyfer 2019-20. Cafodd pwysau eraill o ran costau eu rheoli trwy gamau i leihau gorwariannau neu ddefnyddio trosglwyddiadau rhwng cyllidebau o gyllidebau â thanwariant.

40 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i wella'i reolaeth ariannol a dywedodd swyddogion bod newid diweddar wedi bod yn niwylliant ariannol y sefydliad. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailstrwythuro'r swyddogaeth Gyllid Ganolog i fodel partner busnes a newid oddi wrth y canfyddiad mai cyfrifoldeb Cyllid yw rheoli cyllidebau. I ategu hyn, mae swydd-ddisgrifiadau'r Tîm Arwain Corfforaethol bellach yn cyfeirio'n benodol at gyfrifoldebau rheolaeth ariannol, ac mae perfformiad yn erbyn targedau cyllidebau'n rhan o'r broses arfarnu ar gyfer uwch arweinwyr.

41 Hefyd, mae'r Cyngor bellach yn dwyn deiliaid cyllidebau i gyfrif yn rheolaidd fel rhan o drefniadau wedi'u cryfhau i fonitro a rheoli pwysau o ran costau yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer yr holl bwysau o ran costau a gorwariannau dros £15,000 rhaid i ddeiliaid cyllidebau ddatblygu cynlluniau gweithredu; caiff y rhain eu herio gan Brif Swyddogion ac Aelodau Gweithredol yng nghyfarfodydd chwarterol yr Is-grŵp Pwysau o Ran Costau. Caiff pwysau o ran costau a chamau lliniarol eu nodi hefyd mewn adroddiadau monitro'r gyllideb chwarterol i aelodau.

42 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am hyfforddiant a mynediad at systemau ar gyfer deiliaid cyllidebau ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu fframwaith cymwyseddau ariannol. Bydd hyn o gymorth i arfogi'r holl reolwyr a staff ariannol â'r sgiliau angenrheidiol. Bydd ystyriaeth bellach i gynllunio a datblygu'r gweithlu'n digwydd yn ystod 2020 wrth i'r Cyngor ddatblygu ei Strategaeth Datblygu Sefydliadol newydd.

43 Mae'r Tîm Trawsnewid Strategol wrthi ar hyn o bryd yn cefnogi rhaglen Pontio'r Bwlch y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi datblygu timau cofleidiol i weithio ar yr

adolygiadau strategol sy'n tanlinellu'r rhaglen. Mae'r timau amlddisgyblaethol hyn yn cynnwys swyddogion â sgiliau perthnasol o bob rhan o'r Cygnor, gan gynnwys y Tîm Trawsnewid Strategol.

44 Bu'r Cyngor yn gweithio gyda CIPFA yn ddiweddar i helpu i ganfod ffyrdd pellach o gryfhau ei drefniadau rheolaeth ariannol.

45 Mae aelodau'n cael adroddiadau monitro'r gyllideb a gyhoeddir yn chwarterol, gan gynnwys diweddariadau am arbedion wedi'u cynllunio, sy'n rhoi iddynt y cyfle i graffu ar berfformiad. Mae arbedion y rhagwelir y bydd oedi cyn eu cyflawni neu na fyddant yn cael eu cyflawni'n mynd drwy'r un broses monitro a herio â gorwariannau a phwysau o ran costau a ddisgrifir ym mharagraff 41 uchod. Er bod gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio – 91% yn 2018-19 a 97% yn ôl y rhagolygon ar gyfer 2019-20 – mae dull trawsnewidiol y rhaglen Pontio'r Bwlch yn adnabod cyfleoedd ar gyfer arbedion hirdymor yn ogystal â chyfleoedd posibl i osgoi costau a ffrydiau refeniw newydd. Bydd hyn yn darparu dull mwy cynaliadwy ac yn lleihau dibyniaeth y Cyngor ar adnabod arbedion blynyddol.

## Er bod lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n dal i fod yn isel, mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhagweithiol i wella'i sefyllfa ac mae'r SATC yn dangos ymrwymiad parhaus i gryfhau'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol

### Canfyddiadau a chynnig ar gyfer gwella yn 2018

46 Canfu ein hadolygiad yn 2018 fod gan y Cyngor Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol o 5% a oedd uwchlaw ei lefel darged isaf o 4% a bod y Cyngor yn cydnabod y gallai pwysau nas rhagwelwyd ar y gyllideb fygwth y sefyllfa hon yn y dyfodol.

47 O ganlyniad fe wnaethom gynnig ar gyfer gwella y dylai'r Cyngor gynnal rheolaethau cyllidebol gofalus i sicrhau nad yw pwysau nas rhagwelwyd ar y gyllideb yn achosi i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ostwng islaw ei lefel darged isaf.


### Yr hyn a ganfuom

48 Canfuom fod y Cyngor yn cydnabod yr angen i gryfhau ei sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn a'i fod yn rhagweithiol o ran cymryd cyfleoedd i gynyddu ei Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol.

49 I'r perwyl hwn, fe gynyddodd y Cyngor ei gronfa wrth gefn gyffredinol £0.41 miliwn i £5.89 miliwn ar ddiwedd 2018-19 a chyfanswm ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i £11.7 miliwn. Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi'r gwelliant diweddar yn lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor ar ôl cyfnod o ddihysbyddu parhaus.

**Arddangosyn 3: lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy rhwng 2014-15 a 2018-19**[2]

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos sut y mae lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi newid mewn termau real rhwng 2014-15 a 2018-19 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.




50 Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol i ariannu pwysau cyllidebol yn 2019-20 ac mae'n disgwyl ychwanegu £0.25 miliwn pellach at y Gronfa Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

51 Mae'r SATC yn awgrymu nad oes unrhyw gynlluniau gan y Cyngor i ddefnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol i fantoli cyllidebau dros oes y SATC. Mae hefyd yn cynnwys cyfraniad o £0.2 miliwn at y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol bob blwyddyn. Ar ben hyn, fe gymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith argymhelliad yn ddiweddar i drosglwyddo unrhyw arbedion dros ben a gyflawnir trwy'r rhaglen Pontio'r Bwlch i gronfeydd wrth gefn.

## Mae'r rhaglen Pontio'r Bwlch yn gwneud defnydd effeithiol o ddata ac mae gwaith pellach ar y gweill i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio data

### Canfyddiadau a chynnig ar gyfer gwella yn 2018

52 Canfu ein hadolygiad yn 2018 fod gan y Cyngor lawer o ddata ar gael iddo ond ei fod heb ddiwylliant a oedd yn gyson yn defnyddio data mewn modd adeiladol i fynd ati'n rhagweithiol i herio, dysgu a sbarduno gwelliant.

53 O ganlyniad fe wnaethom gynnig ar gyfer gwella y dylai'r Cyngor ddefnyddio data'n fwy effeithiol i reoli cyllid a pherfformiad ac i bennu ei gyllideb i gyflawni a dangos gwerth am arian. Yn arbennig dylai:

[2] Ffynhonnell: Data Alldro Refeniw Stats Cymru

- adolygu aelodaeth o rwydweithiau allanol/sefydliadau proffesiynol a sicrhau allbynnau eglur a fydd o fudd i agenda wella'r Cyngor;
- gwreiddio data'n well yn ei drefniadau perfformiad a rheolaeth ariannol
- defnyddio data'n fwy effeithiol yn y broses o bennu'r gyllideb i adnabod cyfleoedd ar gyfer gwerth am arian.

## Yr hyn a ganfuom

54 Canfuom fod gan ddata rôl allweddol yn y rhaglen Pontio'r Bwlch. Mae'r rhaglen yn cynnwys adolygiad strategol pwrpasol o ddefnyddio data i ddarparu gwasanaethau gwell. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes nid oedd yr adolygiad hwn wedi dechrau eto.

55 Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio data i oleuo nifer o ffrydiau gwaith eraill dan y rhaglen Pontio'r Bwlch ac mae wedi datblygu timau cofleidiol, amlddisgyblaethol, gan gynnwys staff â sgiliau dadansoddi data, i roi cymorth i gyflawni'r rhaglen waith. Mae'r dull hwn yn helpu i wreiddio diwylliant o ddefnyddio data ym mhob rhan o'r Cyngor.

56 Ceir nifer o enghreifftiau o'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio data i oleuo'r adolygiadau Pontio'r Bwlch:

- mae'r ffrwd waith Cynyddu Incwm wedi dadansoddi dyledwyr yn erbyn y dosbarthiad defnyddwyr ACORN[3]. Dynododd hyn fod cydberthynas rhwng dyledwyr ac ardaloedd amddifadus yn y sir. Mewn ymateb, mae'r Cyngor yn cymryd camau i helpu'r trigolion hyn i gynyddu eu hincwm trwy eu cynghori ynghylch budd-daliadau posibl a'u cyfeirio at gymorth pellach.
- mae'r tîm prosiect sy'n gweithio ar yr adolygiad o Wariant Trydydd Parti wedi dadansoddi data i ddeall a chategoreiddio gwariant trydydd parti ac adnabod cyfleoedd i reoli costau ac alinio gwariant yn well â blaenoriaethau strategol y Cyngor.
- fel rhan o'r adolygiad o'r Grant Gofal Plant, fe gynhaliodd y Cyngor ymarfer mapio rhesymeg, gan ddefnyddio data i fapio mewnbynnau, allbynnau a deilliannau'r rhaglenni y mae'r grant yn eu cyflawni. Fe helpodd hyn i adnabod dyblygu ac effeithlonrwydd posibl.

57 Mae'r Tîm Polisi a Pherfformiad wedi bod yn gweithio ar draws y Cyngor i wella ansawdd data hefyd. Er enghraifft, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r tîm Refeniwiau a Budd-daliadau i ddeall a datrys gwallau blaenorol gyda data prydau ysgol am ddim. Mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda chyfarwyddiaeth yr Amgylchedd i wella data perfformiad. Dywedodd swyddogion y siaradom ni gyda hwy bod data bellach yn cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi'n fwy eang ar hyd a lled y Cyngor.

58 Nid yw'r Cyngor wedi adolygu ei aelodaeth o rwydweithiau allanol a sefydliadau proffesiynol eto.

[3] Mae'r dosbarthiad ACORN yn dadansoddi data ar ddemograffeg, ffactorau cymdeithasol, ymddygiad y boblogaeth a defnyddwyr i ddarparu dealltwriaeth am wahanol fathau o bobl a'u hamgylchiadau.

# Atodiad 1

## Cynigion ar gyfer Gwella: Adolygiad o Gefnogi Cydnerthedd Ariannol, 2018

**Arddangosyn 4: cynigion ar gyfer gwella o'r Adolygiad o Gefnogi Cydnerthedd Ariannol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2018.**

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Rydym yn cynnig y dylai'r Cyngor adolygu'r modd y mae'n gweinyddu'r dreth gyngor i sicrhau ei bod yn cael ei chasglu'n brydlon ac yn effeithlon. Yn arbennig dylai:<br>• adolygu ei drefniadau ar gyfer casglu'r dreth gyngor gyda'r nod o gynyddu cyfraddau casglu yn ystod y flwyddyn; a<br>• chymharu ei gostau staffio ar gyfer y dreth gyngor â chynghorau eraill yng Nghymru i ddeall yr amrywiadau o ran costau a oedd yn bodoli yn ôl pob golwg a chanfod cyfleoedd posibl i arbed costau. |
| **C2** | Rydym yn cynnig y dylai'r Cyngor reoli grantiau'n strategol ochr yn ochr â ffrydiau ariannu eraill. Yn arbennig dylai:<br>• integreiddio'r ceisiadau am grantiau'n well â'r broses o bennu'r gyllideb (lle y bo'n bosibl);<br>• cynnal cofnodion canolog o geisiadau posibl a llwyddiannus am grantiau i ategu trosolwg strategol o'r ffrwd ariannu hon; ac<br>• adolygu'r grantiau a roddwyd gan y Cyngor i sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian. |
| **C3** | Rydym yn cynnig y dylai'r Cyngor ddarparu her gadarn wrth bennu ffioedd a thaliadau i sicrhau eu bod o gymorth i gyflawni ei flaenoriaethau strategol. Yn arbennig:<br>• datblygu polisi creu incwm i roi cymorth i gyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor;<br>• dylai'r tîm Cyllid Canolog roi cyfarwyddiadau clir i reolwyr ynghylch codiadau mewn ffioedd a thaliadau gan ystyried dylanwadau allanol perthnasol;<br>• dylai gwasanaethau gydymffurfio â chyfarwyddiadau ynghylch y gyllideb mewn perthynas â chodiadau mewn ffioedd a thaliadau;<br>• dylai'r tîm Cyllid Canolog gynnal gwiriadau cadarn i herio a chadarnhau cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau ynghylch y gyllideb; a |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| | • dylai incwm wedi'i gyllidebu adlewyrchu lefelau ffioedd a thaliadau y cytunwyd arnynt a lefelau gweithgarwch disgwyliedig. |
| **C4** | Rydym yn cynnig y dylai'r Cyngor, er mwyn cyflawni cyllideb 2018-19, ymateb yn adeiladol i'r anghydbwysedd yng nghyllideb 2017-18 a allai ddigwydd eto yn 2018-19, gan ddefnyddio sgiliau'r Tîm Cyllid Canolog, y Tîm Trawsnewid Strategol a deiliaid cyllidebau. Yn arbennig dylai'r Cyngor:<br>• adolygu ei orwariannau a thanwariannau yng nghyllideb refeniw 2017-18 yn feirniadol a dysgu ohonynt i adnabod rhesymau dros anghydbwyseddau ar gyfer cyllidebau blynyddoedd yn y dyfodol;<br>• gweithredu i sicrhau nad yw gwendidau a ganfuwyd yn ailddigwydd;<br>• cynyddu potensial y Tîm Trawsnewid Strategol i'r eithaf;<br>• gwella'r modd y caiff prosiectau arbedion eu monitro a chymryd camau cywirol eglur i fynd i'r afael â thangyflawni ac ymdrin â'r achosion sylfaenol;<br>• adolygu anghenion sgiliau, galluoedd a datblygu deiliaid cyllidebau a darparu hyfforddiant/cymorth i'w diwallu; a<br>• sicrhau bod y Tîm Cyllid Canolog yn arwain ar ddiwylliant ariannol cadarn ac yn hwyluso'r diwylliant hwnnw drwyddi draw yn y sefydliad. |
| **C5** | Rydym yn cynnig y dylai'r Cyngor wella atebolrwydd drwyddi draw yn y sefydliad am bennu a chyflawni cyllideb 2019-20 a chyllidebau yn y dyfodol. Yn arbennig dylai:<br>• adnabod anghydbwyseddau mewn cyllidebau/gwasanaethau o 2017-18 a rhagolygon yn 2018-19;<br>• penderfynu a yw gorwariant yn mynd i gael ei ariannu trwy gyllideb ychwanegol ynteu ei reoli tuag i lawr trwy weithredu gan reolwyr;<br>• penderfynu a ellir cynnal tanwariant ac ailddyrannu'r gyllideb yn unol â hynny;<br>• cyflwyno trefniadau cynllunio'r gweithlu i'r broses o bennu'r gyllideb;<br>• gwella atebolrwydd am bennu a chyflawni'r gyllideb; a<br>• chryfhau'r modd y rheolir cyllidebau trwy ddwyn deiliaid cyllidebau i gyfrif a chymryd camau cywirol amserol cynnar. |
| **C6** | Rydym yn cynnig y dylai'r Cyngor gynnal rheolaethau cyllidebol gofalus i sicrhau nad yw pwysau nas rhagwelwyd ar y gyllideb yn achosi i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ostwng islaw ei lefel darged isaf. |

**Cynigion ar gyfer gwella**

**C7** Rydym yn cynnig y dylai'r Cyngor ddefnyddio data'n fwy effeithiol i reoli cyllid a pherfformiad ac i bennu ei gyllideb i gyflawni a dangos gwerth am arian. Yn arbennig dylai:

- adolygu aelodaeth o rwydweithiau allanol/sefydliadau proffesiynol a sicrhau allbynnau eglur a fydd o fudd i agenda wella'r Cyngor;
- gwreiddio data'n well yn ei drefniadau perfformiad a rheolaeth ariannol; a
- defnyddio data'n fwy effeithiol yn y broses o bennu'r gyllideb i adnabod cyfleoedd ar gyfer gwerth am arian.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.